# PWYLLGOR SAFONAU

Dydd Llun, 14 Medi 2020

**YN BRESENNOL:** M.A. Morgan (Cadeirydd)

**Aelodau Annibynnol:**
M. Dodd, D. Evans, J. James ac A.Williams

**Aelod Cymunedol:**
Y Cynghorydd Tref P. Rogers

**Y Cynghorwyr:**
S.J.G. Gilasbey ac R. James

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
J. Corner, Swyddog Technegol
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. - 10.00 - 10.50 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

| Aelod | Rhif yr Eitem | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Mrs. J James | 6 - Penderfyniad y Panel Dyfarnu | Gwasanaethodd ar Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gyda'r Cynghorydd Roderick a Ms Doel am gyfnod, ond nid oes ganddi berthynas bersonol agos â nhw. (Noder - barnodd y Swyddog Monitro nad oedd y datganiad yn fuddiant personol). |
| Y Cynghorydd R. James | 6 - Penderfyniad y Panel Dyfarnu | Mae'r Cynghorydd Shotton yn adnabod y Cynghorydd James yn bersonol. Datganodd fuddiant rhagfarnol a phersonol. |

3. **LOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFODYDD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 14EG CHWEFROR, 2020.**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 14 Chwefror, 2020 yn gywir.**

4. **CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD DOROTHY JONES.**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir Dorothy Jones am ollyngiad o dan ddarpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) i siarad a phleidleisio ar faterion yn ymwneud â darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol yn Sir Gaerfyrddin, yn enwedig gweithrediadau'r Panel Ymgynghorol Adolygu Cludiant i'r Ysgol a sefydlwyd gan y Bwrdd Gweithredol i ymchwilio i'r mater hwn yr oedd y Cynghorydd Jones wedi'i phenodi i wasanaethu arno.

Dywedwyd bod y cais am ollyngiad wedi'i wneud oherwydd bod gan y Cynghorydd Jones fuddiant personol yn y mater hwn yn rhinwedd paragraff 10(2)(b)(i) o Gôd Ymddygiad yr Aelodau gan ei bod yn rhiant i blant oed ysgol sy'n byw yn y Sir.

Roedd buddiant y Cynghorydd Jones hefyd yn rhagfarnol petai aelod o'r cyhoedd, o wybod yr holl ffeithiau, yn ystyried yn rhesymol fod y buddiant hwnnw mor arwyddocaol fel y byddai'n debygol o amharu ar farn y Cynghorydd ynghylch budd y cyhoedd. Gan hynny, roedd y Cynghorydd Jones wedi gofyn am ollyngiad o dan Reoliadau 2 (d) a (f) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001.

Nododd y Pwyllgor fod gollyngiad wedi'i roi i'r Cynghorydd Jones mewn perthynas â'r buddiant hwn ar 14 Chwefror 2020 ond nid oedd wedi cael y cyfle i wneud defnydd ohono eto.

Yn dilyn trafodaeth,

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu gollyngiad o dan Reoliadau 2 (d) a (f) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd Dorothy Jones SIARAD A PHLEIDLEISIO ar unrhyw fater y Cyngor sy'n ymwneud â chludiant o'r cartref i'r ysgol yn Sir Gaerfyrddin a bod y gollyngiad yn ddilys tan ddiwedd ei chyfnod yn y swydd.**

5. **CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD KEN LLOYD.**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir Ken Lloyd am ollyngiad o dan ddarpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) i siarad a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar faterion y cyngor yn ymwneud ag Ynni Sir Gâr neu faterion sy’n debygol o gael effaith ar Ynni Sir Gâr, a oedd yn gymdeithas budd cymunedol sy'n gweithredu yn y Sir.

Dywedwyd bod y cais am ollyngiad wedi'i wneud oherwydd bod gan y Cynghorydd Lloyd fuddiant personol yn y mater hwn yn rhinwedd paragraff 10(2)(a) (ix)(bb) ac

(ee) a 10(2)(b)(v) o'r Côd Ymddygiad, sef ei fod ef a chysylltiadau personol agos iddo yn aelodau o'r sefydliad hwnnw a'u bod â chyfranddaliadau ynddo.

Roedd buddiant y Cynghorydd Lloyd hefyd yn rhagfarnol, gan y byddai aelod o'r cyhoedd, o wybod yr holl ffeithiau, yn ystyried yn rhesymol fod y buddiant hwnnw mor arwyddocaol fel ei fod yn debygol o amharu ar farn y Cynghorydd ynghylch budd y cyhoedd.

Rhoddwyd gollyngiad i'r Cynghorydd Lloyd yn flaenorol mewn perthynas â'r buddiant hwn ar 21 Ionawr 2020 a ddefnyddiodd er mwyn siarad yng nghyfarfodydd y Cyngor Llawn ar faterion fel newid yn yr hinsawdd.

Yn dilyn trafodaeth,

**PENDERFYNWYD caniatáu gollyngiad o dan Reoliadau 2 (d) a (f) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd Ken Lloyd SIARAD A CHYFLWYNO SYLWADAU YSGRIFENEDIG YN UNIG mewn perthynas â materion cyffredinol yn ymwneud â'r amgylchedd ond nid materion yn ymwneud yn benodol ag Ynni Sir Gâr, a bod y gollyngiad mewn grym tan ddiwedd ei gyfnod presennol yn y swydd.**

## 6. PENDERFYNIADAU'R PANEL DYFARNU.

[SYLWER:
1. Roedd Mrs J. James wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach ond barnodd y Swyddog Monitro wedi hynny nad oedd o fuddiant personol.
2. Gan fod y Cynghorydd R. James wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod ac felly nid oedd wedi cymryd rhan yn y broses o ystyried y mater a phenderfynu arno.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Banel Dyfarnu Cymru yn manylu ar ei ganfyddiadau yn achosion y Cynghorydd Sir Roderick o Gyngor Sir Powys ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'r Cynghorydd Sir Shotton o Gyngor Sir y Fflint.

Cyfeiriwyd y materion i'r Panel gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o ganlyniad i gwynion a ddaeth i law.

Canfuwyd bod y Cynghorydd Roderick wedi methu â dangos ystyriaeth a pharch i Gynghorydd benywaidd a'i fod wedi dwyn anfri ar ei swydd a hefyd ei fod wedi ceisio defnyddio ei swydd yn amhriodol i roi mantais iddo'i hun neu anfantais i un arall. Cafodd y Cynghorydd Roderick ei wahardd o'r ddau awdurdod am 4 mis.

Canfuwyd bod y Cynghorydd Shotton wedi defnyddio ei swydd yn amhriodol i roi mantais i berson arall a'i fod wedi dwyn anfri ar ei awdurdod trwy annog yr unigolyn hwnnw (un o weithwyr y cyngor) i ymddwyn yn amhriodol yn ystod oriau swyddfa. Cafodd y Cynghorydd Shotton ei wahardd o'i swydd am 3 mis.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 7. COFLYFR CÔD YMDDYGIAD.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y rhifyn diweddaraf o 'Goflyfr Côd Ymddygiad' Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020, a oedd yn rhoi crynodeb o'r ddau ymchwiliad côd a gynhaliwyd yn ymwneud ag aelodau o Gynghorau Sir a Chynghorau Cymuned. Nid oedd dim o'r achosion yn berthnasol i gynghorwyr o Sir Gaerfyrddin.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR OMBWDSMON.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2019/20 a oedd yn cynnwys y Datganiad Cyfrifon ac yn darparu gwybodaeth am achosion o gamweinyddu ac achosion Côd Ymddygiad y deliwyd â nhw gan ei swyddfa yn ystod cyfnod yr adroddiad.

Nododd y Pwyllgor fod y pwyntiau allweddol a godwyd yn yr adroddiad fel a ganlyn:

- Derbyniwyd cyfanswm o 231 o gwynion yn ymwneud â chôd yn ystod y cyfnod adrodd sy'n ostyngiad o 18% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol,
- Gostyngiad yn nifer yr achosion a gyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru o 4 i 1,
- Gostyngiad yng nghanran y cwynion yn ymwneud â chôd a gaewyd (23.7% yn llai o gymharu â'r flwyddyn flaenorol),
- Mae'r mwyafrif o gwynion yn ymwneud â chôd yn cael eu cau yn gynnar.

Cyfeiriwyd at fudd hyfforddiant neu hyfforddiant gloywi ac
nad yw llawer o aelodau Cynghorau Tref a Chymuned yn aml yn manteisio ar gyfleoedd a gynigir iddynt o ran cael hyfforddiant. Gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi, oherwydd Covid-19, na roddwyd hyfforddiant eleni a bod deunydd hyfforddiant wedi'i ddosbarthu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 9. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG, BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Nid oedd dim materion brys i'w trafod.

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**